

Dyddiadur

Dydd Llun

8:00yb: Gweddi am 8

Dydd Mawrth

8:00yb: Gweddi am 8

9:15yb: Boreol Weddi ar Facebook Live.

Dydd Mercher

8:00yb: Gweddi am 8

9:30yb: Cymun Bendigaid yn Eglwys y Santes Anne.

11:00am Cymun Bendigaid yn Eglwys y Drindod.

7:00yh: Cwrdd Gweddi dydd Mercher.

Dydd Iau

8:00yb: Gweddi am 8

9:15yb: Gwasanaeth Boreol Weddi Traddodiadol (Eglwys Y Drindod).

7:00yh: Cwrdd Gweddi (Eglwys Sant Mihangel)

Dydd Gwener

8:00yb: Gweddi am 8

Dydd Sadwrn

8:00yb: Gweddi am 8

Dydd Sul

8:00yb: Gweddi am 8

Tim y Clerigwyr a chysylltiadau

Deon ardal: Parch. Mark Ansell, mark@stmikes.net

Ficeriaid: Parch. Cei Rees, cei@stmikes.net

Parch. Liz Rees, liz@stmikes.net

Curadiaid: Parch. Becky Evans, becky@stmikes.net

Parch. Dr Robert Wilkinson, robert@stmikes.net

Swyddfa ardal weinidogaeth Aberystwyth

Cewch gysylltu â'r staff i gyd ar 01970 617184.

swyddfa@stmikes.net

www.stmikes.org.uk/awa-ama

Eglwys Bro Aberystwyth Bro Aberystwyth Church



Santes
Fair



Sts. Anne
St. Anne



Llanychaearn



Y Drindod
Holy Trinity



Y Cil
The Nave



St. Mihangel
St. Michael

Dydd Sul 21^{ain} Tachwedd 2021

Actau 27: 1-26

Gwasanaethau Dydd Sul 28^{ain} Tachwedd

9:45yb	Eglwys y Santes Fair – Cymun Bendigaid
9:45yb	Eglwys y Santes Anne – Mawl y Bore
11:00yb	Eglwys y Drindod Sanctaidd – Mawl y Bore
11:00yb	Eglwys Sant Mihangel - Mawl y Bore
11:15yb	Eglwys Llanychaearn - Mawl y Bore
5:00yh	Hwyrrol Weddi (Ar-lein) - Carolau Adfent
6:00yh	Eglwys Sant Mihangel
6:00yh	Y Cil (Gwasanaeth ar-lein)

Mae newyddlen ein AWL ar gael yn Saesneg hefyd. Gofynnwch os ydych chi am gael copi.

Newyddion a Digwyddiadau

Os hoffech chi rannu sut mae Duw wedi bod yn gweithio yn eich bywyd yn ddiweddar, rhowch wybod i ni yn swyddfa@stmikes.net

Mae ardal ymhob eglwys heb gyfyngiadau seddi, tra bydd ardal arall wedi'i neilltuo ar gyfer pobl sydd am ychydig mwy o le o'u cwmpas Ond os ydych chi am gadw sedd i'ch hunan, cymerwch arwydd Rhowch le i mi o gefn yr eglwys a'i roi ar eich bwys. Mae'n bosibl derbyn cymun wrth yr allor yn yr eglwys, i'r rhai sy'n hapus i'w wneud, ond ni fyddwn ni'n rhannu'r gwin gyda'r cynulleidfa ar hyn o bryd. Mae defnydd o fygydau wyneb yn dal i fod yn orfodol mewn gwasanaethau o dan reolau llywodraeth Cymru, oni bai am y rhai sydd wedi'u heithrio.

Swper Nadolig y Myfyrwyr: Dewch i ymuno â myfyrwyr eraill am bryd Nadolig, ychydig yn gynnar! Dydd Sul 5ed o Rhagfyr am 5yh. Cofrestrwch drwy ChurchSuite <https://aberparish.churchsuite.com/events/6sj4ympk>

Gwasanaeth Carolau'r Dref a'r brifysgol: Bydd Undeb Cristnogol ac Eglwys Aberystwyth yn cynnal Gwasanaeth Carolau yn y Neuadd Fawr ddydd Llun 6ed o Rhagfyr am 7yh. Mae tocynnau am ddim ond bydd angen eu harchebu o flaenllaw o Ganolfan y Celfyddydau. Fe fydd arnoch chi hefyd angen Pas Covid. Canolfan y Celfyddydau: 01970 623232.

Rydym yn gobeithio ailgychwyn y **Mature Munch** ym mis Rhagfyr. Awgrymir ein bod ni'n cynnal te prynhawn ddydd lau 16eg o Ragfyr. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd mae angen arnom wirfoddolwyr i helpu i baratoi'r bwyd ac i weini. Os ydych chi am helpu gyda'r weinidogaeth hon, cysylltwch â'r swyddfa office@stmikes.net neu 01970 617184. Cewch wirfoddoli ar gyfer yr achlysur hwn neu fel ymrwymiad tymor hir - y cynllun tymor hir ar gyfer y Mature Munch yw i gwrdd bob yn ail wythnos.

Hefyd, mae angen pobl arnom i gymryd rhan yn **Y Ffynnon, The Hatch a Stordyr Jiwbil**. Os hoffech chi helpu, neu os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â liz@stmikes.net, office@stmikes.net neu 01970 617184.

Cofiwch ein bod ni'n gallu anfon **cryno-ddisgiau neu DVDs** o'r gwasanaeth ar-lein i unrhyw un a hoffai gael un. Os ydych chi eisiau copi

Darlleniadau dyddiol a gweddïau

Dydd Sul: Mathew 5:1-5. Nid yw Duw yn meddwl llawer am agwedd hunanfodddhaol.

Dydd Llun: Mathew 5:6-9. Mae Duw yn poeni am sut rydyn ni'n gofalu am eraill.

Dydd Mawrth: Mathew 5:10-16. Dylech ddisgwyl cael eich erlid; byddwch chi'n sefyll allan.

Dydd Mercher: Mathew 5:17-20. "oni fydd eich cyfiawnder chwi nid ewch byth"

Dydd Iau: Mathew 5:21-22. Mae agweddau'n cyfrif cymaint â gweithredoedd.

Dydd Gwener: Mathew 5:23-26. Rhaid cymryd sancteiddrwydd o ddifrif.

Dydd Sadwrn: Mathew 5:27-32. Agweddau!

- Diolch i Dduw am bawb sy'n treulio'u bywydau yn gwasanaethu eraill, boed yn gyflogedig neu'n ddi-dâl, mewn sefyllfaoedd ffurfiol neu anffurfiol. Boed iddynt brofi bendith Duw.
- Gweddïwch am amddiffyniad, arweiniad a nerth i'n holl frodyr a chwiorydd yng Nghrist sy'n profi erledigaeth go iawn am eu ffydd. Boed i Dduw eu hamgylchynu â'i bresenoldeb.
- Gweddïwch dros ein hunain y bydd gennym y dewrder i godi llais yn raslon ond yn gadarn dros yr hyn sy'n iawn wrth i'r cyfle godi.
- Gweddïwch dros yr holl ffoaduriaid y mae eu dioddefaint yn cynyddu wrth i'r gaeaf agosáu. Gweddïwch yn arbennig dros y rhai sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddol ar y ffin rhwng Belarus a Gwlad Pwyl.
- Gweddïwch dros bawb sy'n dioddef o ganlyniad i wrthdaro arfog ledled y byd.

Colect:

Dad tragwyddol, yr esgynnodd dy Fab Iesu Grist i orseddfainc nef

iddo deyrnasu dros bob dim yn Arglwydd ac yn Frenin:

cadw'r Eglwys yn undod yr Ysbryd

ac yn rhwymyn tangnefedd, a dwg yr holl greadigaeth

i addoli wrth ei draed ef; caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist,

i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,

yn oes oesoedd. **Amen.**